



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion**  
**The Record of Proceedings**

Dydd Gwener, 25 Mai 2007  
Friday, 25 May 2007

**Cynnwys**  
**Contents**

- 3 Enwebu Prif Weinidog  
Nomination of the First Minister

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.05 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.  
The Assembly met at 1.05 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

### **Enwebu Prif Weinidog Nomination of the First Minister**

**Y Llywydd (Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas):** Yr wyf yn croesawu Aelodau i ail gyfarfod y trydydd Cynulliad. Byddaf yn cyfeirio at y Rheolau Sefydlog wrth fynd ymlaen er mwyn gwneud yn siŵr fy mod yn eu deall, gan eu bod yn newydd. Yr ydym yn awr yn gweithredu o dan Reol Sefydlog dros dro, sef Rheol Sefydlog Rhif 36.4, sy'n cyfeirio at enwebiadau, a hynny ar gyfer penodi Prif Weinidog. Nid oes modd i'r enwebu ddigwydd heb fod y Cynulliad yn penderfynu hynny. Felly, mae'n rhaid inni yn gyntaf gytuno drwy gyfrwng penderfyniad i ganiatáu i'r enwebiad ddigwydd. Gofynnaf, felly, i Jane Hutt gynnig bod y Cynulliad yn enwebu ar gyfer penodi Prif Weinidog.

**Jane Hutt:** I propose that

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 34, takes nominations for the appointment of a First Minister.*

**Y Llywydd:** Yr ydym mewn sefyllfa newydd hefyd wrth bleidleisio. Mae Rheol Sefydlog Rhif 7.35 yn datgan:

'Os yw'r Llywydd yn fodlon nad oes yr un Aelod am i bleidlais wedi'i chofnodi gael ei chynnal ar unrhyw gynnig neu welliant, caiff gyhoeddi penderfyniad dros dro mewn perthynas â'r cynnig hwnnw neu'r gwelliant hwnnw. Os bydd unrhyw Aelod yn gwrthwynebu, rhaid cynnal pleidlais wedi'i chofnodi yn unol â Rheol Sefydlog 7.36. Os na fydd Aelod yn gwrthwynebu, daw'r penderfyniad dros dro yn benderfyniad y Cynulliad ar y cynnig hwnnw neu'r gwelliant hwnnw.'

Fy mhenderfyniad dros dro yw bod y Cynulliad wedi cytuno i'r cynnig a wnaethpwyd gan Jane Hutt. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu hynny? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad.

**The Presiding Officer (Lord Dafydd Elis-Thomas):** I welcome Members to the second meeting of the third Assembly. I will refer to the Standing Orders as I go along to ensure that I understand them, because they are new. We are now operating under a temporary Standing Order, which is Standing Order No. 36.4 and which allows the nomination for a First Minister. The nomination cannot take place unless the Assembly, by resolution, agrees. Therefore, in the first instance we must agree by resolution to allow the nomination. I therefore ask Jane Hutt to propose that the Assembly nominates for the appointment of a First Minister.

**Jane Hutt:** Cynigiau fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 34, yn derbyn enwebiadau ar gyfer penodi Prif Weinidog.*

**The Presiding Officer:** We are also in a new position in terms of voting arrangements. Standing Order No. 7.35 states:

'Where the Presiding Officer is satisfied that no Member wishes a recorded vote to take place on any motion or amendment, he or she may announce a provisional decision in respect of that motion or amendment. If any Member objects, a recorded vote must be taken in accordance with Standing Order 7.36. If no Member objects, that provisional decision becomes the decision of the Assembly on that motion or amendment.'

My provisional resolution is that the Assembly has agreed to Jane Hutt's motion. Does any Member object? I see that there are no objections.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

**Y Llywydd:** Yr wyf yn gwahodd enwebiad, neu enwebiadau, o dan Reol Sefydlog Rhif 4, am swydd y Prif Weinidog.

**Jane Hutt:** It gives me great pleasure to nominate Rhodri Morgan as First Minister for Wales. As a political friend, colleague and comrade of Rhodri's for the past 25 years, I feel that I have the measure of the man that I am nominating today. This is an important time in terms of the next phase of the Assembly, as we acquire and use the new powers in the Government of Wales Act 2006. Let us briefly remind ourselves of what those powers will deliver. They will take us forward in addressing, for example, the needs of vulnerable children, child poverty, the need for affordable housing, and the need for environmental measures to tackle climate change.

Last night, I managed, after a busy day—and a busy few weeks—to attend a public meeting of the Cambrian Park Residents' Association on the boundary of our two constituencies in the Vale of Glamorgan and Cardiff West. Does it not bring you down to earth when you are out there with the people whom you represent? In raising a question, one of the residents said, 'Well, Rhodri Morgan can deal with that; I see that he will be back in the bay tomorrow'. That sums it up: the people of Wales know and admire Rhodri, and that is his strength. We also have the benefit of his intellect, his formidable memory, his ministerial and parliamentary record and, most importantly, his way with people, which makes him stand out in the street, the marketplace and in this Chamber.

I conclude this nomination with that expression of confidence. I know that, in the coming weeks and months, his commitment to serving the people of Wales will define the statesman that he is. We need that statesman as we enter this new period of minority Labour Government, when we will seek to unite and not to divide, to listen and not to lecture and to use our powers, abilities and strengths across the Chamber for the benefit of those who elected us all on 3 May. Today,

**The Presiding Officer:** I invite a nomination, or nominations, under Standing Order No. 4, for the post of First Minister.

**Jane Hutt:** Mae'n bleser mawr gennyf enwebu Rhodri Morgan fel Prif Weinidog Cymru. Fel cyfaill gwleidyddol, cydweithiwr a chymrawd dros y 25 mlynedd diwethaf, teimlaf fy mod yn adnabod y gŵr yr wyf yn ei enwebu heddiw. Mae hwn yn gyfnod pwysig i'r Cynulliad, wrth inni ddefnyddio'r pwerau newydd a ddaw yn sgîl Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Gadewch inni atgoffa'n hunain yn fyr o'r hyn a olyga'r pwerau hynny. Byddant yn datblygu'r hyn y gallwn ei wneud wrth ddelio, er enghraifft, ag anghenion plant sydd yn agored i niwed, tlodi plant, yr angen am dai fforddiadwy, a'r angen am fesurau amgylcheddol i ymdrin â newid yn yr hinsawdd.

Neithiwr, llwyddais, ar ddiwedd diwrnod prysur—ac ychydig wythnosau prysur—i fynychu cyfarfod cyhoeddus Cymdeithas Trigolion Cambrian Park ar y ffin rhwng ein dwy etholaeth ym Mro Morgannwg a Gorllewin Caerdydd. Onid yw bod allan ymhlith y bobl yr ydych yn eu cynrychioli yn cadw eich traed ar y ddaear? Wrth holi cwestiwn, dywedodd un o'r trigolion, 'Wel, gall Rhodri Morgan ddelio â hynny; gwelaf y bydd ef yn ôl yn y bae yfory'. Mae hynny'n tanlinellu'r ffaith bod pobl Cymru yn adnabod Rhodri ac yn ei edmygu; dyna yw ei gryfder. Yn ogystal â hynny, manteisiwn ar ei ddeall, ei gof aruthrol, ei record weinidogol a seneddol, ac, yn bwysicaf, ei ffordd â phobl, sy'n rhoi statws arbennig iddo ar y stryd, yn y farchnad ac yn y Siambr hon.

Dof i ben drwy ategu'r hyder hwnnw. Gwn y bydd ei ymrwymiad i wasanaethu pobl Cymru, yn yr wythnosau a'r misoedd nesaf, yn diffinio'i statws fel gwladweinydd. Mae angen hynny arnom wrth inni gychwyn ar gyfnod o Lywodraeth Lafur leiafrifol, ac wrth inni geisio uno yn hytrach na rhannu, gwrando yn hytrach na phregethu, a defnyddio ein pwerau, ein galluoedd a'n cryfderau ar draws y Siambr er budd y rhai a bleidleisiodd dros bob un ohonom ar 3 Mai.

we take the first step in that direction by nominating Rhodri Morgan as our First Minister.

Pob lwc, Rhodri.

**Y Llywydd:** A oes unrhyw enwebiad arall? Gwelaf nad oes. Felly, yr wyf yn datgan mai Rhodri Morgan yw'r enwebai. Yn unol ag adran 47(4) Deddf Llywodraeth Cymru 2006, byddaf yn argymhell i Ei Mawrhydi benodi Rhodri Morgan yn Brif Weinidog Cymru. Anfonir y llythyr hwn, yr wyf newydd ei lofnodi, yn ddi-oed at Ei Mawrhydi Y Frenhines. Yr wyf yn gwahodd y Prif Weinidog Etholedig i annerch y Cynulliad.

1.10 p.m.

**The First Minister Elect (Rhodri Morgan):** In nominating me this afternoon the people of Wales have, through our democratic political machinery, put their trust in me to form a Government for them. I solemnly declare, in accepting this nomination, that I will repay that trust with interest.

It is three weeks since the people of Wales, the media, and we as politicians were digesting the election results: a hung Assembly, with 28 days to sort things out. Ninety days is frequently allowed for that in countries where proportional representation is more widely accepted, but we have managed it in 22 days. However, the people of Wales are right to demand that the politicians that they have elected get an early grip and form a Government. I accept that, until about 36 hours ago, today's nomination did not appear to be the likeliest outcome. I think that it was about 10 p.m. when I got a message about events in Llandrindod Wells, which could reasonably be summarised as: 'Have I got news for you, Rhodri?'. I was then able to digest where that was going to take us. However, the following morning, at our bed-and-breakfast accommodation in Llandudno, I was looking through *The Times* when I read my political obituary. I read that I was toast while I was eating my toast—a new experience for me, but one that has its pleasant aspects. Then we motored along at 9 a.m. to catch the flight from Valley airport on

Heddiw, yr ydym yn cymryd y cam cyntaf i'r cyfeiriad hwnnw drwy enwebu Rhodri Morgan fel ein Prif Weinidog.

Good luck, Rhodri.

**The Presiding Officer:** Are there any other nominations? I see not. Therefore, I declare that Rhodri Morgan is the nominee. In accordance with section 47(4) of the Government of Wales Act 2006, I will recommend to Her Majesty that Rhodri Morgan be appointed First Minister of Wales. This letter, which I have just signed, will be sent forthwith to Her Majesty The Queen. I invite the First Minister Elect to address the Assembly.

**Y Prif Weinidog Etholedig (Rhodri Morgan):** Wrth fy enwebu'r prynhawn yma mae pobl Cymru, drwy gyfrwng ein peirianwaith gwleidyddol democrataidd, wedi ymddiried ynof i ffurfio Llywodraeth ar eu cyfer. Yr wyf yn datgan yn ddifrifol y byddaf, wrth dderbyn yr enwebiad hwn, yn mwy nag ad-dalu'r ymddiriedaeth honno.

Mae'n dair wythnos ers i bobl Cymru, y cyfryngau a ni fel gwleidyddion dreulio canlyniadau'r etholiad; Cynulliad crog, gyda 28 diwrnod i roi trefn ar bethau. Caniateir 90 diwrnod yn aml i wneud hynny mewn gwledydd lle caiff cynrychiolaeth gyfrannol ei derbyn yn ehangach, ond yr ydym wedi llwyddo i wneud hynny mewn 22 diwrnod. Fodd bynnag, mae pobl Cymru yn gywir i ofyn i'r gwleidyddion y maent wedi eu hethol i roi trefn ar bethau yn gynnwys a ffurfio Llywodraeth. Hyd nes tua 36 awr yn ôl, derbyniaf nad oedd yn ymddangos mai enwebiad heddiw oedd y canlyniad mwyaf tebygol. Credaf ei bod tua 10 p.m. pan gefais neges am y digwyddiadau yn Llandrindod, y gellir eu crynhoi yn rhesymol fel: '*Have I got news for you, Rhodri?*'. Yr oeddwn wedyn yn gallu treulio lle y byddai hynny yn ein tywys. Fodd bynnag, y bore canlynol yn ein llety gwely a brecwast yn Llandudno, yr oeddwn yn edrych drwy *The Times* pan ddarllenais fy ysgrif goffa wleidyddol. Darllenais fy mod yn dôst tra'n bwyta fy nhôst—profiad newydd i mi, er nad oedd yn gwbl annymunol. Aethom ar garlam wedyn am 9

Ynys Môn, and we got on the plane to return to Cardiff only to be told, after about 20 minutes of trying to get the engine on the right to start, that we would have to return to the terminal and perhaps have a cup of coffee while the engineers did what they could to sort it out. The pilot turned to us and said, 'I am terribly sorry if this is going to cause you any inconvenience', and with a world-weary sigh I replied, 'Oh no, it is not as though we are trying to form a Government or anything like that'. I noticed that it was the engine on the right that was refusing to start, while the engine on the left was working perfectly well.

There were, therefore, worries about just how topsy-turvy a world we were living in, and just how many further twists and turns there would be in this journey. When I nipped out yesterday for half an hour at tea time, to go to the sixth birthday party of one of my many grandsons, I had an unnerving feeling that one of the children was examining me carefully; he knew that he knew me, but he did not know why he knew me, and he screwed up his eyes and examined me from all possible angles before the question that he was trying to form in his mind came out: 'Are you the boss?' I asked him to put that thought on hold for 24 hours, and said, 'Ask me tomorrow'.

Now that I have been nominated I am, of course, thrilled and hugely honoured, but I know that it will not be an easy task. I am thrilled because the new powers enable the Assembly and its Government to deliver far more for the people of Wales, but I know that it will not be easy because minority Governments can have all of their legislative and budgetary proposals defeated, or amended out of all recognition, if they cannot form a consensus around progressive ideas. We must find the centre of gravity of Welsh politics—the centre of gravity that the people of Wales voted for when they made their determinations in the ballot box on 3 May. Yes, it shifted a few degrees to the right, but the overwhelming consensus is still on the left and progressive side, and that is why we should be seeking to build a progressive consensus around the legislative and budgetary proposals that we will bring

a.m. i ddal yr awyren o faes awyr y Fali ar Ynys Môn, ac aethom ar yr awyren i ddychwelyd i Gaerdydd ond dywedwyd wrthym, ar ôl tua 20 munud o geisio cychwyn y peiriant ar y dde, y byddai'n rhaid inni ddychwelyd i'r terminws ac efallai cael paned o goffi tra roedd y peirianwyr yn gwneud yr hyn y gallent i ddatrys y broblem. Trodd y peilot atom a dweud, 'Mae'n wir ddrwg gen i os bydd hyn yn achosi unrhyw anghyfleustod ichi' a gydag ochenaid drom atebais, 'O na, nid yw fel pe baem yn ceisio ffurfio Llywodraeth na dim byd felly'. Sylwais mai'r peiriant ar y dde oedd yn gwrthod cychwyn, tra yr oedd y peiriant ar y chwith yn gweithio'n hollol iawn.

Felly, yr oedd pryderon am ba mor anwadal yw'r byd yr ydym yn byw ynddo, a faint mwy yn union o droadau annisgwyl fyddai ar y siwrnai hon. Pan biciais allan ddoe am hanner awr amser têt, i fynd i barti chweched penblwydd un o'm nifer o wyrion, cefais deimlad anesmwyth fod un o'r plant yn fy archwilio'n ofalus; yr oedd yn gwybod ei fod yn fy adnabod, ond ni wyddai pam ei fod yn fy adnabod, a chraffodd arnai o bob ongl bosibl cyn y daeth y cwestiwn yr oedd yn ceisio ei ffurfio yn ei feddwl allan: 'Ai chi yw'r bos?' Gofynnais iddo bendroni dros hynny am 24 awr, a dywedais, 'Gofynnwch i mi yfory'.

Gan fy mod yn awr wedi fy enwebu, yr wyf, wrth gwrs, wrth fy modd ac wedi fy anrhydeddu'n sylweddol, ond gwn na fydd yn dasg syml. Yr wyf wrth fy modd gan y bydd y pwerau newydd yn galluogi'r Cynulliad a'i Lywodraeth i gyflawni llawer mwy i bobl Cymru, ond gwn na fydd yn hawdd oherwydd gellir trechu bob un o gynigion deddwriaethol neu gyllidebol Llywodraethau lleiafrifol, neu eu newid y tu hwnt i bob adnabyddiaeth, oni allent ddod i gonsensws am syniadau blaengar. Mae'n rhaid inni ganfod craidd disgyrchiant gwleidyddiaeth Gymreig—y craidd disgyrchiant y pleidleisiodd pobl Cymru amdano pan y gwnaethant eu penderfyniadau yn y blwch pleidleisio ar 3 Mai. Do, fe symudodd ychydig i'r dde, ond mae'r consensws llethol yn parhau i fod ar yr ochr chwith a blaengar, a dyna pam y dylem fod yn chwilio am gonsensws blaengar am y

forward. We will consult across the Chamber, across the traditional party fault lines, to reach out to others of a like mind to find areas of action and policy that we can agree on. We will show that we are a Government and a party that are learning the lessons and listening to the messages that the people of Wales sent us very firmly on 3 May.

On 6 June, I intend to outline the administration's legislative programme for the coming months, and the policy proposals that we will bring forward in relation to child poverty reduction, affordable housing, climate change, better access to healthcare and so forth, will be rooted in the special Welsh progressive and radical tradition. I put on record today our offer of co-operation with all of those parts of the Assembly that share that progressive agenda.

We have had nearly two months, because of the election and the three weeks since then, in which the practical work of responding to those challenges has necessarily been on hold. As an institution, this Assembly, and the devolved democracy that it represents, does best when voters know that we are focused on what matters to them and on what goes on outside these four walls rather than on the fate of individual politicians and what goes on in here, in this hothouse of Cardiff bay.

With an administration now about to be in place, the people of Wales will expect us to turn away from preoccupations about forming a Government and to put effective Government into action.

Mae'r her o arwain Llywodraeth yn waith caled. Mae'n golygu eich bod yn gorfod slafio pan fo eisiau gorffwys arnoch. Fodd bynnag, mae'n gymaint o fraint—braint na chafodd cenedlaethau o arweinwyr gwleidyddol o Gymru a oedd yn llawer gwell na fi. Felly, nid oedd posibilïad y byddem yn ystyried am eiliad troi i ffwrdd o'r cyfle a'r her i ffurfio ein trydedd weinyddiaeth.

I thank my family, my Labour group and my party for what they have enabled me to do hitherto. I also say to all of you listening in

cynigion deddfwriaethol a chyllidebol y byddwn yn eu cyflwyno. Byddwn yn ymgynghori ar draws y Siambr, ar draws y llinellau plaid traddodiadol, er mwyn estyn at eraill o feddylfryd tebyg i ganfod meysydd gweithredu a pholisi y gallwn gytuno arnynt. Dangoswn ein bod yn Llywodraeth a phlaid sy'n dysgu'r gwersi ac sy'n gwrando ar y negeseuon yr anfonodd pobl Cymru yn hynod gadarn atom ar 3 Mai.

Ar 6 Mehefin, bwriadaf amlinellu rhaglen ddeddfwriaethol y weinyddiaeth ar gyfer y misoedd sydd i ddod, a bydd y cynigion polisi y byddwn yn eu cyflwyno o ran lleihau tlodi plant, tai fforddiadwy, newid yn yr hinsawdd, gwell mynediad at ofal iechyd ac yn y blaen, yn seiliedig ar y traddodiad blaengar a radical Cymreig arbennig. Yr wyf yn nodi heddiw ein cynnig i gydweithredu gyda'r holl rannau hynny o'r Cynulliad sy'n rhannu'r agenda flaengar honno.

Gyda'r etholiad a'r tair wythnos ers hynny, mae deufis, bron, wedi mynd heibio, gyda'r gwaith ymarferol o ymateb i'r heriau hynny wedi ei ohirio, o anghenraid. Fel sefydliad, mae'r Cynulliad, a'r ddemocratiaeth ddatganoledig y mae'n ei chynrychioli, yn gweithio ar ei orau pan fydd etholwyr yn gwybod ei fod yn canolbwyntio ar y materion sy'n bwysig iddynt hwy ac ar faterion y tu hwnt i'r pedair wal hyn, yn hytrach nag ar dranc gwleidyddion penodol ac ar faterion mewnol y tŷ gwydr hwn ym mae Caerdydd.

Gyda'r weinyddiaeth ar fin cael ei sefydlu, bydd pobl Cymru yn disgwyl inni droi ein cefnau ar synfyfyrïo ynghylch ffurfio Llywodraeth a rhoi Llywodraeth effeithiol ar waith.

The challenge of leading a Government is hard work. It means that you have to slave away when you want to rest. However, it is such an honour—an honour that generations of political leaders from Wales, far better than I, never had. Therefore, there was no possibility that I would consider for a second turning away from this opportunity and challenge to form our third administration.

Diolch i fy nheulu, fy ngrŵp Llafur a'm plaid am yr hyn y maent wedi fy ngalluogi i'w wneud hyd yn hyn. Dywedaf wrth bawb sy'n

the Chamber and outside that I feel very proud to be slipping the captain's armband onto my shirt sleeve again today. That is why, in all humility, I ask for your assistance as we seek to do our duty here.

I say to this Assembly and to the people that I am not the boss—they, the people, are the boss. They will expect us to take Wales in the direction in which they voted for. Diolch yn fawr. Thank you very much. [*Applause.*]

**Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones):** Hoffwn, yn y lle cyntaf, longyfarch Rhodri Morgan ar gael ei enwebu a'i gadarnhau yn Brif Weinidog y Cynulliad ac ar ganlyniad yr etholiad, a oedd yn golygu mai ei blaid ef oedd y blaid fwyaf yn y Siambr, er y gwyddom ein bod yn wynebu Llywodraeth leiafrifol. Fel y gŵyr Rhodri Morgan, mae swydd y Prif Weinidog yn ysgwyddo cyfrifoldeb mawr. Yn naturiol, dymunaf yn dda iddo yn ei ddyletswyddau.

Pedair blynedd yn ôl, fe'i etholwyd ef i'r swydd hon mewn amgylchiadau tra gwahanol. Bryd hynny, Rhodri, yr oedd gennych fwyafrif technegol; y tro hwn, nid yw hwnnw ar gael i chi. Felly, yr ydym i gyd yn wynebu cyfnod o Lywodraeth leiafrifol. Ni fydd hynny'n hawdd: bydd yn galw am ddoethineb, arweiniad cadarn, yr awydd i wrando, adeiladu consensws, ac, yn fy marn i, llywodraethu mewn ffordd wahanol.

Hoffwn hefyd gymryd y cyfle i longyfarch yr holl Aelodau eraill yn y Cynulliad a chafodd eu hethol. Cawsom gyfle byr yn y cyfarfod diwethaf i wneud hynny, ond teimlaf fod cael eich ethol i'r Cynulliad Cenedlaethol yn fraint fawr iawn. Dymunaf yn dda i Aelodau o bob plaid yn eu dyletswyddau.

Fel yr awgrymodd Jane Hutt yn ei ychydig sylwadau ar ddechrau'r cyfarfod, mae'r cyfle i wasanaethu etholwyr yn cyfoethogi eich profiad. Wrth gwrs, bydd ein gwaith yn y Cynulliad hwn yn bwysig iawn i ni gyd—yn Aelodau newydd ac yn Aelodau sydd wedi bod yma o'r blaen—wrth i ni ddod i delerau gyda phwerau newydd y Cynulliad o safbwynt deddfu a chraffu.

gwrando yn y Siambr a'r tu allan fy mod yn falch o fod yn gwisgo bathodyn y capten ar fy nghrys unwaith eto heddiw. Dyna'r rheswm y gofynnaf am eich cymorth, gyda phob gwyleidd-dra, wrth inni geisio gwneud ein dyletswydd heddiw.

Dywedaf wrth y Cynulliad ac wrth y bobl nad myfi yw'r bos—nhw, y bobl, yw'r bos. Byddant yn disgwyl inni arwain Cymru ar hyd y trywydd y bu iddynt bleidleisio amdano. Diolch yn fawr. [*Cymeradwyaeth.*]

**The Leader of the Opposition (Ieuan Wyn Jones):** First, I would like to congratulate Rhodri Morgan on being nominated and confirmed as First Minister of the Assembly and on the election result, which meant that his party was the largest party in the Chamber, although we know that we face a minority Government. As Rhodri Morgan knows, the position of First Minister is a great responsibility. Naturally, I wish him well in his duties.

Four years ago, he was elected to this post in quite different circumstances. At that time, Rhodri, you had a technical majority; this time, that is not available to you. Therefore, we all face a period of a minority Government. That will not be easy: it will call for wisdom, robust leadership, the desire to listen, the building of consensus, and, in my opinion, governing in a different way.

I would also like to take this opportunity to congratulate all of the other Members in the Assembly who have been elected. We had a brief opportunity to do so at the last meeting, but I feel that being elected to the National Assembly is a very great privilege. I wish Members from every party well in their duties.

As Jane Hutt suggested in her few remarks at the start of the meeting, the opportunity to serve voters enriches your experience. Of course, our work in this Assembly will be very important to all of us—both new Members and those of us who have been here before—as we come to terms with the new powers of the Assembly in relation to legislation and scrutiny.



Cyfeiriais at ganlyniad y Blaid Lafur. Hoffwn gyfeirio'n fyr iawn at ganlyniadau'r ddwy blaid arall. Cynyddodd y Blaid Geidwadol nifer eu Haelodau. Yr wyf yn siŵr y byddai holl Aelodau'r blaid honno hefyd yn dymuno chwarae rhan wrth graffu ar waith y Llywodraeth a chynnig eu hatebion hwy wrth drafod rhaglen y Llywodraeth.

Er nad yw'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi cynyddu nifer eu seddi, nid ydynt wedi colli seddi ychwaith. Deallaf nad yw'r cyfnod hwn wedi bod yn hawdd i Mike, ond mae hen ddywediad—ac yr wyf finnau'n ymgorfforiad o hwnnw—sef bod bywyd wedi marwolaeth wleidyddol.

1.20 p.m.

Er nad oedd canran y bobl a bleidleisiodd yn yr etholiad cymaint ag yr oeddwn wedi'i obeithio, yr oedd yn uwch nag yn 2003. Mae hynny er clod i bobl Cymru ac er clod i'r pleidiau, oedd yn gosod allan eu rhaglenni. Fodd bynnag, ein gwaith yn y trydydd Cynulliad yw profi yn fwy nag erioed fydd y Cynulliad hwn yn gwneud gwahaniaeth fel bod pobl yn ymwybodol o'r hyn y gall y Llywodraeth ei gyflawni.

Let me assure you, Rhodri, that the aeroplane problems in Anglesey were nothing to do with me. [*Laughter.*] However, I cannot allow the events of the last three weeks to go by without giving my take on them. Ever since the results of the election became clear, the Welsh public has been gripped by the way in which the parties have been discussing the various permutations of how Wales might be governed. We have always known that the proportional representation system would lead to discussions of this kind, but it is only now, in the third Assembly, that we have put that into practice. That is how a healthy democracy should work. This is what happens in mature democracies throughout Europe and beyond. I have learned a great deal in the last few weeks, but the biggest lesson of all, surely, is that people have to work together in the interests of the people of Wales.

The interest shown by ordinary people in these discussions has been phenomenal—one could almost say that it produced as much

I referred to the Labour Party result. I will also refer briefly to the results of the other two parties. The Conservative Party increased its number of Members. I am sure that all Members of that party will wish to play a part in scrutinising the work of the Government and proposing their own solutions when discussing the Government's programme.

Although the Liberal Democrats have not increased the number of their seats, they have not lost seats either. I understand that this has not been an easy time for Mike, but there is an old adage—and I am the personification of it—that there is life after political death.

Even though the percentage of those who voted in the election was not as large as I had hoped, it was greater than in 2003. The people of Wales are to be praised for that as are the parties, who set out their programmes. However, our work in the third Assembly is to prove more than ever that the Assembly will make a difference so that people are aware of what the Government can achieve.

Gadewch imi eich sicrhau, Rhodri, nad oedd a wnelo problemau'r awyren yn Ynys Môn unrhyw beth â mi. [*Chwerthin.*] Fodd bynnag, ni allaf ganiatáu i ddigwyddiadau'r tair wythnos diwethaf basio heb roi fy marn arnynt. Ers i ganlyniad yr etholiad ddod i'r amlwg, mae sylw pobl Cymru wedi'i hoelio ar sut y mae'r pleidiau wedi trafod y gwahanol batrymau posibl ar gyfer llywodraethu Cymru. Yr ydym wedi gwybod erioed y byddai'r system o gynrychiolaeth gyfrannol yn arwain at drafodaethau o'r fath, ond bu'n rhaid aros tan y trydydd Cynulliad i roi hynny ar waith. Dyna sut y dylai pethau fod mewn democratiaeth iach. Dyna sy'n digwydd mewn democratiaethau aeddfed ar draws Ewrop a thu hwnt. Yr wyf wedi dysgu llawer dros yr wythnosau diwethaf, ond mae'n rhaid mai'r wers amlycaf yw bod gofyn i bobl gydweithio er budd pobl Cymru.

Bu diddordeb pobl gyffredin yn y trafodaethau hyn yn anhygoel—gellid dweud eu bod wedi ennyn cymaint o ddiddordeb â'r

interest as the election itself. Today is not the time to comment or even to reflect on the conclusion of those discussions, but I do not subscribe to the notion put forward by some commentators that the people feel more disengaged now. I feel that the public has never been as engaged; people became passionate about what was going on, expressing strong views for and against the various combinations and about what they wanted the Assembly to achieve. Let us welcome this new way of doing things. I believe that the last three weeks have changed the political landscape for the foreseeable future. No longer is one party able to dominate. Welcome to the era of political plurality. Wales will be the better for it, because, in order to succeed, people have to talk together, to listen, to understand the viewpoint of others, to reach consensus and to act in the best interests of the people whom we serve. Achieving this calls for leadership, maturity, and a willingness on all sides to be less tribal in our approach. We have set the tone and I hope that we can live up to it over the next four years.

**The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne):** First, I offer my congratulations to the First Minister on his nomination and wish him well. I also congratulate all new and returning Members. I am immensely proud of what the Welsh Conservative Party achieved in the recent elections. We had a large increase in our share of the vote and, as in 2003—and uniquely among the parties—both our share of the vote and our number of seats went up. This time, we also won more first-past-the-post seats.

I welcome five new Members to my group, although I am obviously sad at the loss of Laura, Lisa and Glyn. I wish David Davies all the best at Westminster. [*Laughter.*] I do.

**The Presiding Officer:** We all do.

**Nick Bourne:** I reciprocate the kind comments of the leader of Plaid Cymru and congratulate him on leading his party so successfully and increasing the number of seats in his group. It is the second largest

etholiad ei hun. Nid heddiw yw'r diwrnod i wneud sylwadau ar gasgliad y trafodaethau hynny, nac i fyrfyrrio arnynt hyd yn oed, ond nid wyf yn cytuno â'r farn bod pobl wedi ymddieithrio'n fwy yn awr. Credaf na fu'r cyhoedd erioed yn gymaint o ran o bethau; yr oedd pobl yn teimlo'n gryf am yr hyn a oedd yn digwydd, ac yn mynegi teimpladau cryf o blaid ac yn erbyn y gwahanol gyfuniadau a'r hyn yr oeddent am i'r Cynulliad ei gyflawni. Gadewch inni groesawu'r ffordd newydd hon o weithredu. Credaf fod y tair wythnos diwethaf wedi newid y tirwedd gwleidyddol ar gyfer y dyfodol rhagweladwy. Nid yw'n bosibl i un blaid ddominyddu mwyach. Croeso i oes lluosogrwydd gwleidyddol. Bydd Cymru ar ei hennill, oherwydd, er mwyn llwyddo, bydd gofyn i bobl drafod, gwrando, deall safbwyntiau, sicrhau consensws a gweithredu er budd y bobl yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae cyflawni hyn yn galw am arweiniad, aeddfedrwydd, a pharodrwydd ar bob ochr i ganolbwyntio llai ar fuddiannau pleidiol. Yr ydym wedi dangos y ffordd a gobeithiaf y gallwn barhau felly dros y pedair blynedd nesaf.

**Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne):** Yn gyntaf, cynigiaf fy llongyfarchiadau i'r Prif Weinidog ar ei enwebiad, a dymunaf yn dda iddo. Yr wyf hefyd yn llongyfarch yr holl Aelodau newydd a'r rhai sy'n dychwelyd i'r Cynulliad. Yr wyf yn falch iawn o'r hyn a gyflawnodd Ceidwadwyr Cymru yn yr etholiad diweddar. Gwelsom gynnydd mawr yn ein cyfran o'r bleidlais ac, yn yr un modd â 2003—yn unigryw ymhlith y pleidiau—cynyddodd ein cyfran o'r bleidlais a nifer ein seddi. Y tro hwn enillodd ein plaid fwy o seddi etholaethol hefyd.

Croesawaf bump o Aelodau newydd i fy ngrŵp, er fy mod, yn amlwg, yn drist o golli Laura, Lisa a Glyn. Dymunaf yn dda i David Davies yn San Steffan. [*Chwerthin.*] Mae'n wir.

**Y Llywydd:** Fel pob un ohonom.

**Nick Bourne:** Ymatebaf yn yr un modd i sylwadau caredig arweinydd Plaid Cymru, gan ei longyfarch ar arwain ei blaid mor llwyddiannus ac am gynyddu nifer seddi ei grŵp. Ei grŵp ef yw'r ail fwyaf o ran nifer

party in terms of the number of seats, although not in the number of votes, as he will be aware. In contrast, I have to say to the First Minister Elect that this election was devastating for Labour. It was his party's lowest share of the vote since 1918—31 per cent. Therefore, a little bit of humility is called for in approaching this new term.

I welcome some of what the First Minister said, although I remind him of what has been happening over the past three weeks. It is the Labour Party that has seemed strangely out of touch—discussions were broken off with it by two other parties. I will not give up on this idea of a rainbow alliance; it is important that there is a viable alternative to a minority Labour administration. This is work in progress. I am delighted at the work that our party has done; the membership accepted this unanimously in our management board, and it was overwhelmingly accepted in our group. This is the way forward.

I congratulate the leaders of Plaid Cymru and the Liberal Democrats on the work that they have done in this regard. I very much regret that, having had the verdict of the Welsh people on the Labour Party, the Labour Party was saved by a small number of Liberal Democrat activists, voting in Llandrindod Wells. That is the truth of the matter. Had we had the 90 days to which the First Minister referred, which exists in some countries, he would not be sitting there today. He is being elected today not because there is a great groundswell of support and street parties waiting to begin outside, but because we are up against a time limit—that is the reality.

Therefore, we will wait and see what the Labour Party does. If it is going to talk about this progressive consensus, let us see it. We have seen the electorate's verdict—the electorate did not believe that Labour was particularly progressive or consensual, or that there was a platform there particularly to vote for. Therefore, we will wait and see. Meanwhile, rest assured that, if that does not happen, work will continue on a viable alternative, because the people of Wales deserve better than what they have had over the last eight years.

seddi, er nad o ran nifer pleidleisiau, fel y gŵyr. I'r gwrthwyneb, mae'n rhaid imi ddweud wrth y Prif Weinidog Etholedig fod yr etholiad hwn yn un ofnadwy i Lafur. Enillodd ei blaid ei chyfran isaf o'r bleidlais ers 1918—31 y cant. Felly, mae angen rhywfaint o wyleidd-dra ar ddechrau'r tymor newydd hwn.

Croesawaf rywfaint o'r hyn a ddywedodd y Prif Weinidog, er, yr wyf am ei atgoffa am yr hyn sydd wedi bod yn digwydd dros y tair wythnos diwethaf. Y Blaid Lafur sydd fel pe bai wedi colli gafael—penderfynodd dwy blaid ddirwyn eu trafodaethau â hi i ben. Ni fyddaf yn rhoi'r gorau i'r syniad o gael cynghrair o liwiau'r enfys; mae'n bwysig bod gennym ddewis ymarferol sydd yn wahanol i Lywodraeth Lafur leiafrifol. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo. Yr wyf wrth fy modd gyda'r gwaith a wnaeth ein plaid; derbyniwyd hyn yn unfrydol gan ein bwrdd rheoli, ac fe'i derbyniwyd gan y mwyafrif llethol yn ein grŵp. Dyma'r ffordd ymlaen.

Llongyfarchaf arweinwyr Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol am ei gwaith yn hyn o beth. Gresynaf, wedi inni weld penderfyniad pobl Cymru ynghylch y Blaid Lafur, fod nifer fach o gefnogwyr y Democratiaid Rhyddfrydol wedi achub Llafur drwy bleidlais yn Llandrindod. Hyn yw'r gwir plaen. Pe baem wedi cael y 90 diwrnod y cyfeiriodd y Prif Weinidog atynt, fel mewn ambell wlad, ni fyddai ef yn eistedd yma heddiw. Caiff ei ethol heddiw nid oherwydd bod iddo gefnogaeth aruthrol a bod partion ar y stryd ar fin dechrau, ond oherwydd fod gennym amserlen dynn—hyn yw'r gwir plaen.

Felly, byddwn yn aros i weld yr hyn a wna'r Blaid Lafur. Os bydd yn sôn am y consensws blaengar hwn, yr ydym am weld hynny'n digwydd. Cawsom fam yr etholwyr—nid oeddynt yn credu bod Llafur yn blaid flaengar ac yn cefnogi gwleidyddiaeth gonsensws, na bod yno sylfaen i'w chefnogi drwy bleidlais. Felly, aros i weld a wnawn. Yn y cyfamser, gallwch fod yn siŵr, os na fydd hynny'n digwydd, bydd ein gwaith ar ddewis amgen ac ymarferol yn parhau, gan fod pobl Cymru yn haeddu rhywbeth gwell na'r hyn a gawsant yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German):** I also give my personal congratulations—and those of the Welsh Liberal Democrats—to Rhodri Morgan on his nomination and election today.

As you know, I believe that we face interesting times. That is the adage of the last three or four weeks and of the future. However, as the leader of Plaid Cymru said, this is the norm—we will find that this is what we must get used to in Wales from now on. It should not be unusual, and it should not be felt that we have yet to feel our way through this process; our job is to help people to understand that that is the new and demonstrable way in which we will form our Governments in Wales.

Therefore, in these interesting times, there will be interesting work ahead for the First Minister. If this arrangement is to work, there will have to be a change of culture—both among those who manage the process for us, and among the Labour Party. Those of us who were here in the previous Assembly will remember that we had two years in which the Government was in a minority. I ask those people to reflect on whether they felt that the minority status of the Government last time was leading to the sorts of changes that we are hearing about today, and the sorts of changes that we want to see expressed today.

If you want to create a consensus, not only do you have to listen, you have to listen and make changes. It is insufficient to take something on board by hearing, through the ears, and not change it with your heart. That is the difficult change that we now face in the Assembly. We are not talking about making changes at the edges—we are talking about making changes at the heart of the decision-making process. That goes from legislation—the legislative proposals—through to spending proposals, and the key public appointments that are being made on behalf of the people of Wales. There must be a sense of being able to listen and make those changes.

**Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German):** Yr wyf hefyd yn cynnig fy llongyfarchiadau personol—a llongyfarchiadau'r Democratiaid Rhyddfrydol Cymru—i Rhodri Morgan ar ei enwebiad a'i etholiad heddiw.

Fel y gwyddoch, yr wyf o'r farn ein bod yn wynebu amseroedd ddiddorol. Dyna fu dywedriad y dair neu bedair wythnos ddiwethaf a dyna ddywedriad y dyfodol. Fodd bynnag, fel y dywedodd arweinydd Plaid Cymru, dyma'r arfer—byddwn yn canfod y bydd yn rhaid inni ddod i arfer â hyn yng Nghymru o hyn allan. Ni ddylai fod yn anarferol, ac ni ddylid teimlo nad ydym wedi canfod ein ffordd drwy'r broses hon; ein gwaith yw helpu pobl i ddeall mai dyma'r ffordd newydd a dangosadwy y byddwn yn ffurfio ein Llywodraethau yng Nghymru.

Felly, yn yr amseroedd diddorol hyn, bydd gwaith diddorol yn wynebu'r Prif Weinidog. Er mwyn i'r trefniant hwn weithio, bydd yn rhaid newid diwylliant—ymysg y rhai sy'n rheoli'r broses drosom, ac ymysg y Blaid Lafur. Bydd y rhai ohonom oedd yma yn y Cynulliad blaenorol yn cofio cyfnod o ddwy flynedd lle yr oedd y Llywodraeth mewn lleiafrif. Gofynnaf i'r bobl hynny i adlewyrchu ar p'un a ydynt yn teimlo fod statws lleiafrifol y Llywodraeth y tro diwethaf yn arwain at y mathau o newidiadau yr ydym yn clywed amdanynt heddiw, a'r mathau o newidiadau yr ydym am eu gweld yn cael eu mynegi heddiw.

Os ydych am greu consensws, nid yn unig y bydd yn rhaid ichi wrando, ond bydd yn rhaid ichi wrando a gwneud newidiadau. Nid yw'n ddigon ichi ystyried rhywbeth drwy glywed, drwy eich clustiau, a pheidio â'i newid gyda'ch calon. Dyna yw'r newid anodd a wynebwn yn y Cynulliad bellach. Nid ydym yn sôn am wneud newidiadau ar yr ymylon—yr ydym yn sôn am wneud newidiadau wrth graidd y broses gwneud penderfyniadau. Mae hynny'n ymestyn o ddeddfwriaeth—y cynigion deddfwriaethol—i'r cynigion gwario, a'r penodiadau cyhoeddus allweddol a wneir ar ran pobl Cymru. Mae'n rhaid bod ymdeimlad o allu gwranddo a gwneud y newidiadau hynny.

Therefore, it will be a challenging time for the First Minister. We live in a pluralistic Wales, a Wales that has great diversity. That is the strength of our country, and that is what we want to see reflected through this National Assembly—that strength, and our country being managed to meet the needs of the whole of Wales, not just a part or a faction of Wales.

1.30 p.m.

Therefore, First Minister, you have a big challenge ahead of you. I cannot estimate the length or degree of that challenge, but change must be at the heart of it. You have my commitment that the Welsh Liberal Democrats will work constructively to help you to meet that challenge. [*Applause.*]

**Y Llywydd:** Diolch yn fawr i arweinwyr y pleidiau. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 36.5, byddaf yn sicrhau y caiff Aelodau eu hysbysu ynghylch dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf—ni chaiff ei gynnal ar ddydd Gwener. Fel y clywsom, y dyddiad mwyaf tebygol yw 6 Mehefin, yn dilyn y cyfarfod arbennig y diwrnod cynt.

Dyna ddiwedd ein trafodion heddiw.

Felly, bydd yn amser heriol i'r Prif Weinidog. Yr ydym yn byw mewn Cymru luosog, Cymru sydd ag amrywiaeth eang. Dyna gryfder ein gwlad, a dyna yr ydym am ei weld yn cael ei adlewyrchu drwy'r Cynulliad Cenedlaethol hwn—y cryfder hwnnw, a'n gwlad yn cael ei rheoli i ddiwallu anghenion Cymru gyfan, ac nid dim ond rhan neu garfan o Gymru.

Felly, mae her fawr o'ch blaen, Brif Weinidog. Ni allaf amcangyfrif hyd na lled yr her honno, ond rhaid wrth newid. Rhoddaf ymrwymiad i chi y bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn gweithio'n adeiladol i'ch helpu i gwrdd â'r her honno. [*Cymeradwyaeth.*]

**The Presiding Officer:** I thank the party leaders. According to Standing Order No. 36.5, I will ensure that Members are informed of the date and time of the next meeting—it will not be held on a Friday. As we heard, the most likely date is 6 June, following the special meeting to be held on the previous day.

That brings today's proceedings to a close.

*Daeth y cyfarfod i ben am 1.31 p.m.  
The meeting ended at 1.31 p.m.*

#### **Aelodau a'u Pleidiau Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)  
 Asghar, Mohammad (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)  
 Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
 Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)  
 Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)  
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)  
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)  
 Davies, Alun (Llafur – Labour)  
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)  
 Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)

Graham, William (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)  
 Griffiths, John (Llafur – Labour)  
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)  
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)  
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)  
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)  
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
 James, Irene (Llafur – Labour)  
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Ann (Llafur – Labour)  
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)  
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Law, Trish (Annibynnol – Independent)  
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)  
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)  
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)  
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)  
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)  
 Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)  
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)  
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)  
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Watson, Joyce (Llafur – Labour)  
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)